

Sul Heddwch

Darllen: Rhufeiniaid 5:8

Ar Sul Heddwch, mae ein meddyliau'n troi at deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid mewn rhyfeloedd. Mae'r cof a'r hiraeth yn dal i frigo i'r wyneb, ac mae Sul tebyg i heddiw'n sicr o ddod â'r atgofion i gyd yn ôl. Mae'n rhaid cofio am ddewrder y myrddiynau fu'n brwydro ar faes y gad, a llawer ohonyn nhw wedi colli eu bywydau ym mlodau eu dyddiau. Cofiwn hefyd am y rhai y gorfodwyd iddyn nhw fynd i ymladd yn erbyn eu hewyllys. Nid oedd ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb mewn ymladd nac unrhyw awydd i adael cartref i wynebu'r gelyn. Mynd i ymladd a wnaethon nhw am fod *rhaid* iddyn nhw fynd i ymladd.

Cofiwn heddiw am y rhai y bu'n rhaid iddyn nhw fynd i ymladd, ond na ddaeth yn ôl. Cofiwn am y rhai ddaeth yn ôl wedi eu hanafu a'u dinistrio, gorff a meddwl. Dyma'r llanastr y mae rhyfeloedd yn ei adael ar ôl. Meddylw'n am yr hyn oedd eu teuluoedd yn ei wynebu. Dynion a merched yn eu hoed a'u hamser â'u cyrff wedi'u dryllio - un fraich, dwy goes wedi eu colli, wynebau wedi'u hanharddu, a meddyliau wedi'u parlysu. Cofiwn am ddewrder y teuluoedd hyn oedd yn dal y dagrau'n ôl er mwyn ymdrechu i fod yn llawen a siriol.

Oni ddylai'r golygfeydd hyn ein tanio i ymdrechu i sicrhau heddwch ar y ddaear? Neu'n bwysicach fyth, oni ddylent argyhoeddi'r rhai sy'n rhodio coridorau pŵer i wneud hynny? Beth all bodau cyffredin fel ni ei wneud yn wyneb y tensiynau diefflig sy'n bodoli rhwng gwlad a gwlad, cenedl a chenedl? Gallwn fel unigolion ac eglwysi weddio'n daer am heddwch. Gallwn gydnabod i ddechrau ein bod ni wedi methu, cyflwyno ein methiant i Dduw, ac erfyn arno i weithredu yn ein lle. Gallwn hefyd brotestio'n groch yn erbyn gwerthu arfau rhyfel i wledydd eraill er mwyn elw. Mae'r ysfa i fynd i ryfel yn apelio gymaint at ein harweinwyr gwladol, fel y gwelsom y degawdau diwethaf hyn.

Oes gan yr Efengyl rywbeth i'w ddweud wrthym ar Sul fel hwn? Wrth gerdded trwy'r mynwentydd milwrol, gwelir un symbol Cristnogol dro ar ôl tro. Croes. Mae'r symbol hwn yn ein hatgoffa 'bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid' (Rhufeiniaid 5: 8). Ac mi rydyn ni i gyd yn syrthio i'r categori hwn, 'yn dal yn bechaduriaid'. Mae Iesu wedi marw dros unigolion. Neges i unigolion ydi'r neges Gristnogol. Ar y groes, fel y cofiwch, fe gofiodd Iesu am un oedd ar groes arall wrth ei ochr. 'Heddiw,' meddai wrth hwnnw, 'byddi gyda mi ym Mharadwys' (Luc 23:43). Ac alla i yn bersonol ddim credu ei fod wedi addo uffern i'r llall oedd yn ei wawdio ar y groes.

Gall diwrnod fel heddiw fod yn ddiwrnod tywyll a diobaith, diwrnod o ddagrau a hiraeth, diwrnod o hel atgofion ac atgyfodi hen feddyliau. Ond mae goleuni'n llewyrchu trwy'r cwbl: goleuni'r groes. Mae'r goleuni hwn yn dal i lewyrchu, a dydi'r tywyllwch ddim wedi ei drechu.

Myfyrdod pellach:

Beth yw eich teimladau chi ar y Sul hwn?

Beth fedrwch chi fel eglwys ei wneud i hybu heddwch a chytgord yn y byd?